Cyngor Ysgolion Sul
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli
Gwynedd, LL53 6SH


**Ffôn** 01766 819120
**Ebost** aled@ysgolsul.com

# CYSylltiad 2018

## Y wybodaeth ddiweddaraf am waith ac adnoddau y Cyngor Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair


## Croeso

**i rifyn diweddaraf CYSylltiad** sy'n llawn newyddion am yr adnoddau ar cyfleuoedd sydd ar gael i gyflwyno'r efengyl yng Nghymru heddiw. Rydym yn ddiolchgar eleni i Bwyllgor ***Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd*** am nawdd i argraffu'r bwletin hwn mewn lliw. Cofiwch ddod i gysylltiad os am unrhyw gefnogaeth gyda'r gwaith. Mae pob dim hefyd ar gael ar ein gwefan **www.ysgolsul.com**.




## Adnoddau Cenhadol Nadolig

Eleni mae pecyn cynhwysfawr o adnoddau Nadolig newydd wedi eu cynhyrchu i gynorthwyo eglwysi wneud y mwyaf o'r cyfle i rannu newyddion da y Nadolig yn eu bro. **Manylion llawn ar dudalen 6 a 7.**






## Adnoddau Ysgol Sul

**Mae'n gwerslyfrau cyfredol i'w gweld ar dudalen 4. Cofiwch hefyd mai *Dehongli Bywyd a Gwaith Timotheus* yw maes llafur yr oedolion am eleni.**





## Catlog Newydd
### 64 tudalen lliw llawn

Ar gael i lawrlwytho am ddim o www.ysgolsul.com neu gallwch archebu copi caled trwy anfon siec o £2 i 'Cyngor Ysgolion Sul' i'r cyfeiriad a welir uchod. Bydd modd codi copi am ddim wrth i ni deithio gyda arddangosfeydd gwahanol.




## Nifer o Lyfrau Defosiynol newydd ar gyfer 2018

**Addas ar gyfer cynnal oedfa, seiat, cyfarfod gweddi.** **Manylion llawn ar dudalen 10.**






Cygnor
Ysgolion Sul

**Cyngor Ysgolion Sul**
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli
Gwynedd, LL53 6SH

**Ffôn** 01766 819120
**Ebost** aled@ysgolsul.com

CYHOEDDIADAU'R
GAIR

## I'w gyflwyno i sylw aelodau eich eglwys / YSGOL SUL

# Llythyr ac Apêl Sul Addysg, 2018

Annwyl gyfeillion,

Wrth i ni fel eglwysi baratoi ar gyfer tymor y Nadolig pleser yw amgáu gwybodaeth am weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul i'ch sylw. Eleni rydym wedi datblygu cyfres o adnoddau Nadoligaidd newydd i gynorthwyo eglwysi i ymestyn allan i'w cymunedau, sy'n cynnwys cylchgrawn ar gyfer ei ddosbarthu yn y gymuned, a nifer o adnoddau fel baneri i hyrwyddo a hysbysebu ein digwyddiadau. Bydd mwy o adnoddau hefyd i'w lawrlwytho o'n gwefan yn fuan. Mae yna ddewis o **3 comic Nadoligaidd** ar gyfer 2018, **llyfr Nadolig gan Anni Llyn** ar gyfer y plant lleiaf a nifer o lyfrau rhodd eraill am y Nadolig. Mae gennym hefyd **6 cynllun cerdyn Nadolig** newydd ar gyfer 2018 (gweler y ffurflen archebu).

Wrth i Cyngor Ysgolion Sul gynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf mae cenhadaeth yn mynd i fod yn fwy canolog i'r gwaith wrth i ni ystyried sut mae modd cyrraedd 95% o boblogaeth Cymru sy y tu allan i fywyd yr eglwys ar hyn o bryd. Daw mwy o wybodaeth am y cynlluniau hynny yn gynnar yn 2019.

Rydym yn dilyn **cyfres werslyfrau 'Stori Duw' am 2018-19**, ond cofiwch bod opsiynau eraill ar gael hefyd – mwy o wybodaeth ar ein gwefan. O ran maes llafur yr oedolion, eleni byddwn yn dilyn **llyfr Elfed ap Nefydd Roberts, Dehongli Bywyd a Gwaith Timotheus**. Cofiwch am ein llyfrau gwasanaeth a defosiynol newydd. Mae **fersiwn print bras o beibl.net** ar gael am £24.99, ond mae modd i eglwysi sicrhau copïau am £20 tan ddiwedd Ionawr – noder bydd angen trefnu eu casglu. Erbyn hyn mae gennym llawer iawn mwy o adnoddau ar y we, ac mae modd prynu a lawr lwytho dros **150 o ffilmiau Beiblaidd**, dros 50 o werslyfrau a dros 40 o lyfrau defosiynol mewn cyfrwng digidol. Ewch i ysgolsul.com a chliciwch ar Siop i weld yr holl arlwy.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd casgliad newydd o ganeuon i blant ac ieuenctid, sef **Canu Clod! 1 a 2**, sy'n cynnwys dros 450 o ganeuon Cristnogol cyfoes a thraddodiadol. Maent ar gael fel dwy gyfrol am £53.98 ond mae cyfle unigryw i eglwysi / ysgolion Sul yr enwadau cefnogol gael **UN set am y pris arbennig o £40.00** yn cynnwys cludiant.

Cofiwch hefyd fy mod ar gael i gynghori gyda gwaith plant ac ieuenctid, ac yn arbennig ar yr adnoddau cyfoes sydd ar gael at eich gwasanaeth. Mae gwefan www.ysgolsul.com hefyd yn cynnwys llawer o adnoddau i'w lawr lwytho – ewch i adran Y Banc Adnoddau. Mae nifer o brojectau eraill megis Llan Llanast, Agor y Llyfr, Cwrs y Beibl, Alffa a Y Cam Nesaf yn gynlluniau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo ein tystiolaeth. Gofynnwn hefyd am eich gweddïau chi dros y gwaith. Gwahoddwn ni chi fel eglwys i neilltuo rhan o wasanaeth i roi sylw i 'Sul Addysg', – bydd hyn yn rhoi cyfle i chi fel eglwys i ddiolch am gyfraniad addysg Gristnogol i fywydau ein hieuenctid, ac i weddïo dros bawb sy'n cyflwyno a derbyn yr addysg hwn. Mae deunydd ar ein gwefan ar gyfer cynnal oedfa ar y Sul hwn.

Dyma'r Sul hefyd y mae Cyngor Ysgolion Sul yn gwneud ei **apêl ariannol blynyddol** i'r eglwysi. Diolchwn am bob cyfraniad at y gwaith dros y blynyddoedd diwethaf – mae'r rhoddion yma erbyn hyn yn gwbl allweddol i ddatblygiad ein gwaith. Apeliwn eleni eto am eich cefnogaeth haelionus, gan yrru unrhyw gyfraniadau ataf (yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul) i'r cyfeiriad uchod. Y mae'r her i genhadaeth ymhlith plant ac ieuenctid yn fwy nag erioed – diolch am bob cefnogaeth ymarferol a gweddigar. Diolch am bob cefnogaeth at waith yr Ysgol Sul – cofiwch gysylltu os am fwy o wybodaeth ar unrhyw agwedd o'r uchod.

Yn gywir,

*D. Aled Davies* **Aled Davies** Cyfarwyddwr

..............................................................................................................................

Amgaeaf siec o £................ fel cyfraniad o Eglwys ............................................................. am 2018.

Enw: ............................................................................................ Ffôn: ............................................................................

Eglwys: ......................................................................................... Ebost: ..........................................................................

Cyfeiriad: ................................................................................................................................................................................


............................................................................................................................ Côd Post ..........................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH


**Ymddiriedolwyr:** Parchedigion Dyfrig Rees, Judith Morris, Dyfrig Lloyd, Jennie Hurd, Mr. Rheinallt Thomas a swyddogion cyfredol y Cyngor.
**Cofrestrwyd fel Elusen/Registered Charity:** Rhif/No: 525766
**Swyddfa Gofrestredig/Registered Office:** Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.

# Detholiad o'n Beiblau i Blant


Trwy gysylltu â Chyngor Ysgolion Sul mae'n bosib cael gostyngiadau arbennig drwy brynu cyflenwad i'w cyflwyno i blant.




**Beibl Lliw Stori Duw**
£12.99
Mae'r beibl hwn i blant 7–11 oed yn cynnwys 365 o straeon, un ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn.





**Beibl Bach Stori Duw**
£12.99
Beibl lliwgar i blant 5–8 oed yn ein harwain trwy'r Beibl, gan gyflwyno'r stori fel un stori, gan esbonio sut mae'r cyfan yn rhan o stori fawr Duw.





**Beibl Bach i Blant** £13.99
Cyfrol ddarluniadol hardd mewn lliw yn cynnwys 64 o storïau mwyaf poblogaidd o'r Beibl, wedi eu haddasu ar gyfer plant ifanc.





**Beibl Newydd y Plant**
£12.99
Beibl lliw ar gyfer plant 5–8 oed. Dyma stori fawr y Beibl o'r Creu i'r Cadw, wedi ei hadrodd yn arbennig ar gyfer plant.




**Beibl Newydd y Storïwr**
£12.99
Casgliad o straeon o'r Beibl i'w darllen yn uchel i blant. Hwn yw'r Beibl ar gyfer cynllun Agor y Llyfr.




**Beibl y Plant Lleiaf**
£12.99
Addasiad Cymraeg o gasgliad o ugain stori Feiblaidd gyda thestun syml wedi eu darlunio'n lliwgar, yn cynnwys deg stori yr un o'r ddau Destament; i blant 3–6 oed.




**Y Beibl Graffig**
£16.95
Addasiad Cymraeg deniadol o gyfrol ddarluniadol lawn yn adrodd holl ddrama a chyffro, llawenydd a loes hoff hanesion y Beibl; i blant o bob oed.





**Beibl Blociau**
£12.99
Beibl lliwgar i blant 9–14 oed yn arddull Minecraft.





**Fy Meibl Bach**
£5.99
Llyfr bwrdd gydag handlen hwylus yn cynnwys 12 stori o'r Beibl ar gyfer y plant lleiaf.




**Beibl Cyntaf y Plant Lleiaf**
£9.99
Beibl bwrdd i'r plant lleiaf.




**Fy Meibl Bach I**
£3.99
Casgliad o brif storïau'r Beibl wedi'u hadrodd yn syml a'u darlunio'n lliwgar ar gyfer plant bach.




**Y Beibl Fesul Stori**
£9.99
Beibl lliw newydd ar gyfer ieuenctid 11–18 oed, mewn arddull nofel / y stori gyflawn.

# Ffurflen Archebu

# Llyfrau ac Adnoddau Ysgol Sul

Y prisiau arbennig (mewn cromfachau) yn berthnasol i eglwysi sy'n pertyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru.

| | Pris Siop | Pris Arbennig | | **Nifer** | **Cost** |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWERSLYFRAU** | | | | | |
| Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 5 | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| Gwerslyfr Stori Duw i blant 6-11 oed | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| Gwerslyfr Stori Duw i Ieuenctid | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **CREFFT** | | | | | |
| Llyfr Crefft Stori Duw i blant bach | £18.99 | (£15.00) | ❑ | ................. | ................. |
| Llyfr Crefft Stori Duw i blant | £18.99 | (£15.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **CD-ROM** | | | | | |
| Cyfres Stori Duw | £19.99 | (£15.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **LLYFRAU GWEITHGAREDD** | | | | | |
| Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf | £11.98 | (£6.00) | ❑ | ................. | ................. |
| Beibl Gweithgaredd y Plant | £11.98 | (£6.00) | ❑ | ................. | ................. |
| gan gynnwys Beibl Gweithgaredd yr Eglwys Fore | | | | | |
| **BEIBLAU LLIW** | | | | | |
| Beibl Lliw Stori Duw | £12.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| Beibl Bach Stori Duw | £12.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **DEFOSIWN** | | | | | |
| Oedfaon Stori Duw | £9.99 | (£7.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **FFEITHIOL** | | | | | |
| Taith Fawr Stori Duw | £6.99 | (£5.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **LLIWIO** | | | | | |
| Llyfr lliwio Stori Duw i blant | £14.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **ADNODDAU GWELEDOL / CLYWEDOL** | | | | | |
| Cyfres o 4 DVD Beibl Lliw Stori Duw | £23.96 | (£20.00) | ❑ | ................. | ................. |
| Cyfres o 2 DVD Beibl Bach i Blant | £19.98 | (£15.00) | ❑ | ................. | ................. |
| *Y ffilmiau uchod ar gael i'w lawrlwytho o www.ysgolsul.com fel ffilmiau unigol am 49c yr un.* | | | | | |
| Beibl Bach i Blant - Powerpoint | £13.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| Llinell Amser y Beibl | £11.99 | (£10.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **ADNODDAU DIGIDOL** | | | | | |
| App Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf | Ar gael o'r *Apple App Store* ar gyfer teclynau fel iPad | | | | |
| App Beibl Gweithgaredd y Plant | Ar gael o'r *Apple App Store* ar gyfer teclynau fel iPad | | | | |
| **CYFEIRLYFRAU** | | | | | |
| Set o 6: Llawlyfr y Beibl, Llawlyfr y Beibl i Blant<br>Antur Trwy'r Beibl, Beth yw'r Beibl, Dysgu am y Beibl<br>Darganfod y Beibl | £64.94 | (£25.00) | ❑ | ................. | ................. |
| **GWERSLYFR NEWYDD I OEDOLION** | | | | | |
| Dehongli Bywyd a Gwaith Timotheus<br>gan Elfed ap Nefydd Roberts | £8.99 | | ❑ | ................. | ................. |
| | | | | **Cyfanswm Cost** | ................. |

















Amgaeaf siec o £................. yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'. **Ffôn** ..............................................................

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..............................................................

.............................................................. **Côd Post** ..............................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

# GWERSLYFRAU YSGOL SUL, OPSIYNNAU ERAILL

**Gwerslyfrau Bywyd Iesu**

**Gwerslyfr Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu**
Testun: Ann Bowen Morgan a Delyth Morgans Phillips.
Pris £14.99, 188 tt. cm
Cyfrol o 40 o wersi Ysgol Sul ar gyfer plant oed cynradd, 7-11 oed yn cynnwys hanesion, gêmau, posau, adnoddau crefft a lliwio. Cydymaith i Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu.




**Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu**
Testun: Eleri Huws
Pris £6.99, 160 tt, cm
Beibl lliw llawn sy'n cynnwys y stori'n llawn a dwy dudalen o weithgareddau i gyd-fynd â phob gwers.





**Gwerslyfrau Mosaic**

**Duw gyda Ni**


**Mae Duw yn Dda**
Testun: Mair Jones Parry.
Pris £11.99, 96 tt. cm

2 lyfr adnodd gwerthfawr ar gyfer arweinyddion plant ac ieuenctid mewn eglwysi a chapeli bychain, yn cynnwys amlinelliad o sesiynau grŵp i blant o ystod oed eang (2-14 oed), gweithgareddau, gwasanaeth ar gyfer pob oed, tudalennau i'w dyblygu a chynghorion ymarferol i'r arweinyddion.





Cyfres Ffydd ar Waith
**Cyfres Ffydd ar Waith Llyfr 1 – Cymorth Cristnogol** Pris: £7.99
**Cyfres Ffydd ar Waith Llyfr 2 – hanes chwe elusen Gristnogol** Pris: £9.99
Dyma gyfres o werslyfrau sydd yn edrych ar hanes a gwaith nifer o elusennau Cristnogol, a sut y gallwn ni eu cefnogi yn eu gwaith.




# Cyfres Golau ar y Gair




**Gideon – yn ymladd dros Dduw**
**Teulu Newydd Ruth**
**Moses – Y Dywysoges a'r Baban**
**Pasg – Iesu'r Brenin**
**Samuel – Duw yn siarad â Samuel**
**Pentecost – Newyddion Da Iawn**
**Daniel – yn ffau'r Llewod**
**Damhegion Iesu – Cyfrinachau'r Deyrnas**
**Dechrau'r byd: Hanes y Creu**
**Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys**
**Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da**
**Jeremeia: proffwyd mewn twll**
**Pentecost: yr Ysbryd Glân ar waith**
**Dafydd: bardd a brenin (Salmau)**
**Iesu'n dangos ei allu**
**Joseff yn yr Aifft**
**Y Nadolig**
**Porthi'r Pum Mil**
**Moses: Gadael yr Aifft**
**Abraham: ffrind Duw**
**Iesu'r Meddyg**
**Elias: negesydd Duw**
**Jona: Proffwyd Anfodlon**
**Y Pasg: y daith fawr**
**Moses: Y Deg Gorchymyn**
**Solomon: y brenin doeth**
**Josua: yr arweinydd newydd**
**Y Pasg: "Gorffennwyd"**
**Y Nadolig: Rhodd Duw**
**Iesu: Ffrind mewn angen**
**Y Pasg: trwy lygaid Pedr**
**Y Beibl: Stori Fawr Duw**
**Dafydd: bugail a brenin**
**Nadolig: Goleuni'r Byd**
**Iesu'n croesawu pawb**
**Paul: yn cyfarfod Iesu**
**Iesu: y Ffrind Gorau**
**Nadolig: O'r nef y daeth**
**Iesu'r athro da**
**Esther: y frenhines ddewr**

Awdur: Sarah Morris, Pris £6.99, 44tt, cm
Cyfrolau o wersi ysgol Sul i blant 4-14 oed, yn dilyn stori/thema arbennig.

**Golau a'r y Gair (CD-ROM)**
Testun: Sarah Morris. Pris: £19.99
Cyfrolau o wersi ysgol Sul i blant 4-14 oed, yn dilyn stori/thema arbennig

Cyfres Ar y Ffordd
**Dosbarth Cyntaf**
Pris £8.99, 96tt, cm
15 o wersi Beiblaidd ar gyfer yr ysgol Sul i blant dan 5 oed.
**Cychwyn gyda'r Beibl: Hen Destament**
Pris £8.99, 96tt, cm
15 o wersi Beiblaidd ar gyfer yr ysgol Sul i blant dan 5 oed.
**Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 1** **Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 2**
**Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 3** **Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 4**
**Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 5**
Pris £8.99, 96tt, cm. Gwersi Beiblaidd ysgol Sul i blant 3-9 oed.

**Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 1**
**Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 2**
**Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 3**
**Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 4**
Pris £8.99, 96tt, cm.
Gwersi Beiblaidd ysgol Sul i blant 9-11 oed.

**Gemau'r Gair**
Testun: Evelyn Roberts,
Pris: £8.99, 96tt. cm
Casgliad o gemau Beiblaidd yn seiliedig ar storïau o'r Beibl.

# Ffurflen Archebu
# Adnoddau Cenhadol Nadolig
## O llawenhawn! *Daeth Crist i'n plith*

Ar gyfer Nadolig 2018 mae Cyngor Ysgolion Sul wedi paratoi cyfres newydd o adnoddau a fydd yn galluogi Eglwysi i gyflwyno neges a llawenydd y Nadolig o fewn ein cymunedau mewn ffordd drawiadol ac effeithiol.

Yn ganolbwynt i'r cyfan mae **cylchgrawn lliwgar 16 tudalen** sy'n cynnwys darlleniadau Beiblaidd, erthygl yn sôn am 'Beth yw'r Nadolig?' gan Arfon Jones, posau, croesair, rysáit Cacen Nadolig, cerddi, gweddïau, tudalen i'r plant a nifer o erthyglau diddorol.

Mae modd prynu copïau o'r cylchgrawn am 99c yr un, neu becynnau o 100 gopi am £50 (50c yr un). **Mae modd hefyd archebu copïau gyda thudalen gefn a all gynnwys manylion lleol eich eglwys/amseroedd oedfaon Nadolig** ayyb... Os am archebu rhai penodol i'ch eglwys/ardal rhaid archebu isafswm o 250 copi am £250, neu 500 copi am £350 neu 1,000 copi am £500. Ni ellir argraffu niferoedd gwahanol i'r rhain.

Yn ogystal hefyd mae **baner liwgar** ar gyfer ei harddangos tu allan i'ch capel (2 fedr wrth 0.5 medr) ar gael am £25 yr un. Neu **faner tu mewn** (*roller banner*) am £50 yr un. Hefyd mae **taflenni carolau** ar gael am £30 (pecyn o 100), **balŵns lliwgar** am £2 (pecyn o 10) a **matiau diod** am £2 (pecyn o 10). Mae **cardiau Nadolig** hefyd ar gael yn yr un cynllun os am eu defnyddio i'w hanfon ar ran yr eglwys.

| | Pris | **Nifer** | **Cost** |
|---|---|---|---|
| **CYLCHGRAWN CYFFREDINOL** | | | |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – copi unigol | £0.99 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 2 i 99 copi | £0.75 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 100 copi neu fwy | £0.50 | ................ | ................ |
| **CYLCHGRAWN WEDI EI ADDASU AT DDIBEN LLEOL** | | | |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 250 copi | £250 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 500 copi | £350 | ................ | ................ |
| O Llawenhawn! Daeth Crist i'n Plith – 1,000 copi | £500 | ................ | ................ |
| **BANERI** | | | |
| Baner ar gyfer tu allan (2m X 0.5m) | £25 | ................ | ................ |
| *Roller banner* ar gyfer tu mewn (0.8m X 2m) | £50 | ................ | ................ |
| **ADNODDAU ERAILL** | | | |
| Balŵns (Oren – 'O Llawenhawn!') – pecyn o 10 | £2 | ................ | ................ |
| Matiau Diod ('O Llawenhawn!') – pecyn o 10 | £2 | ................ | ................ |
| Taflenni Carolau – pecyn o 100 | £30 | ................ | ................ |
| Cardiau Nadolig ('O Llawenhawn!') – pecyn o 8 | £2 | ................ | ................ |
| Cardiau Nadolig ('O Llawenhawn!') – pecyn o 100 | £15 | ................ | ................ |
| | | **Cyfanswm Cost** | ................ |

Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'. **Ffôn** ........................................................................................

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ........................................................................................................................

........................................................................................................... **Côd Post** ...........................................................................


**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH




Y Cylchgrawn 16 tudalen




Matiau diod





Cardiau Nadolig




Balŵns




Taflen garolau




Baner tu mewn





Baner tu allan

# Taith Adnoddau Nadolig

Yn ystod mis Tachwedd byddwn ym ymweld â 8 canolfan ar hyd a lled Cymru i gyflwyno'r adnoddau hyn. Bydd cyfle ar y noson i brynu:

- Yr holl adnoddau Nadolig cenhadol a restrir yma
- Cardiau Nadolig newydd yr Ysgol Sul
- Llyfrau anrhegion Nadoligaidd i blant, gan gynnwys nifer o lyfrau bargen am hanner pris neu lai.
- Bydd cyfle hefyd i weld a phrynu dewis dethol o werslyfrau ysgol Sul a llyfrau defosiynol newydd.

Cynhelir bob noson rhwng 7–9 yr hwyr, gyda chyfle i alw mewn i brynu'r nwyddau.





**Nos Lun, Tachwedd 5ed:** Caersalem Caernarfon
**Nos Iau, Tachwedd 8fed:** Seion Aberystwyth
**Nos Lun, Tachwedd 12fed:** Yr Ysgoldy, Llanuwchllyn
**Nos Fercher, Tachwedd 14eg:** Capel Trefnant
**Nos Iau, Tachwedd 15fed:** Capel Lon y Felin, Llangefni
**Nos Lun, Tachwedd 26ain:** Capel y Priordy, Caerfyrddin
**Nos Fawrth, Tachwedd 27ain:** Eglwys y Bedyddwyr Carmel, Pontlliw
**Nos Fercher, Tachwedd 28ain:** Eglwys Minny Street, Caerdydd


# CARDIAU NADOLIG CRISTNOGOL CYMRAEG

7 cynllun Beiblaidd ar gyfer Nadolig 2018. Cardiau maint mawr. 8 mewn pecyn.













**Mae yna gynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac ysgolion Sul. Am bob pecyn a werthir bydd 50c yn mynd i gronfa eich ysgol Sul chi. Dyma gyfle gwych felly i gefnogi Cyngor Ysgolion Sul a'ch ysgol Sul leol chi! Mi fyddwch chi yn talu £1.50 y pecyn amdanynt ac yn eu gwerthu am £2 y pecyn. Cynigir y cardiau ar gynllun dychwel neu werthu!**

**I archebu, cysyllter â (gan nodi nifer y pecynnau rydych am eu derbyn):**

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

01766 819120 aled@ysgolsul.com
Rhoir amrywiaeth o gynlluniau ymhob bocs – tra pery stoc.

Amgaeaf siec o £.................. yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am ............... o becynnau am £1.50 yr un (+£2.50 cludiant).


Enw a chyfeiriad dosbarthu ..................................................................................................................

..................................................................................................................


..................................................................................................................

Côd Post .................................................................. Ffôn ..................................................................

**Gwneud Cysylltiad y Nadolig**
Testun: J John,
Pris: £1.99, 64tt, cm
Dewch i ganfod mwy am bwy yw Duw a sut yn union y mae'n teimlo tuag atom. Cewch wybod sut y bu i ni golli cysylltiad â Duw a sut y gellir adfer y cysylltiad hwnnw.





**Defosiwn Gŵyl y Nadolig**
Testun: Aled Davies,
pris: £11.99, 504tt.
Cyfrol gynhwysfawr o ddeunydd defosiynol ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig, gan gynnwys gweddïau, homiliau, carolau, cerddi, darlleniadau ayyb.



# Adnoddau i rannu stori'r Nadolig i blant


## Tri Comic/Llyfr Nadolig

Mae dau gomic Beiblaidd Nadoligaidd ar gael i'w cyflwyno i blant oed cynradd. Maent ar gael am y pris arbennig o 60c yr un mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £25 neu 100 am £40. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.




**Seren Bethlehem** (*I Blant 5 i 8 oed*)
Comic newydd lliwgar 16 tudalen ar gyfer 2017 yn cyflwyno stori'r Nadolig ynghyd â gweithgareddau lliwio a phosau niferus ar y thema.

**Arwyr Ancora: Comic Beiblaidd y Nadolig** (*I Blant 7 i 11 oed*)
Mae'r Comic 20 tudalen hwn hefyd yn cyflwyno plant i app Beiblaidd *Guardians of Ancora* sydd ar gael yn Gymraeg i'r iPad a theclynnau tebyg.









**Fy Llyfr Nadolig Cyntaf** gan **Anni Llŷn** (*I Blant 5 i 7 oed*)
Yn ogystal mae llyfr lliwgar yn adrodd hanes stori'r Nadolig ar ffurf odl wedi ei greu yn arbennig gan Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru 2015–2017. Mae'n addas ar gyfer plant 4 i 8 oed. Maent ar gael am £2.99 yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £75 neu 100 am £100. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.

# Llyfrau rhodd ar gyfer y Nadolig








**Chwilota drwy Stori'r Nadolig** £5.99
Cyfrol lliwgar yn arddull Ble mae Wali? yn adrodd hanes y Nadolig, gyda channoedd o bethau i chwilio amdanynt ar dudalennau cerdyn caled sy'n agor allan. Addasiad Cymraeg o Look and Find Bible Stories Christmas gan Mair Jones Parry.

**Chwilio a Chanfod: Stori'r Nadolig** £3.99
Llyfr bwrdd lliwgar yn adrodd hanes y Nadolig ar gyfer plant 3–6 oed.




**Fy Llyfr Cyntaf: Stori'r Nadolig** £3.99
Llyfr bwrdd gyda handlen yn adrodd hanes y Nadolig ar gyfer plant 3–6 oed. Addasiad Cymraeg o The Story of Christmas gan Mair Jones Parry.

**Rhyfeddod y Nadolig** £2.99
Llyfr stori'r Nadolig i blant 5–8 oed gan Bethan James, wedi'i ddarlunio mewn lliw gan Paula Doherty. Addasiad Cymraeg Mair Jones Parry.





**Stori'r Nadolig Cyntaf** £3.99
Llyfr bwrdd lliwgar ar gyfer plant 3–5 oed yn adrodd hanes y Nadolig cyntaf.


# Llyfrau defosiynol newydd ar gyfer addoliad cyhoeddus

Ar gyfer 2018 cyhoeddir nifer o lyfrau defosiynol sy'n addas ar gyfer defosiwn personol neu ar gyfer arwain addoliad yn yr eglwys. Maent i gyd ar gael o'ch **siop lyfrau leol** neu ar y we o **www.gwales.com**. Mae nifer ohonynt ar gael fel eLyfrau PDF i'w prynu a'u lawrlwytho o **www.ysgolsul.com**


**40 Diwrnod gyda'r Seintiau Celtaidd**
Testun: Owain Llyr Evans,
Pris: £8.99, 212tt.
Cyfrol fyfyrdodol yn cofnodi hanes 40 o seintiau, ynghyd a darlleniadau Beiblaidd, myfyrdodau a gweddïau.
Addas ar gyfer Y Grawys.





**Agorwn Ddrysau Mawl**
Testun: John Lewis Jones
Pris: £12.99, 300tt.
Casgliad o 48 o wasanaethau ac oedfaon (gan gynnwys Emynau) ar gyfer blwyddyn gyfan o addoliad cyhoeddus.





**Cwlwm Celtaidd**
Testun: Huw John Hughes,
Pris: £9.99, 180tt.
Casgliad cynhwysfawr o weddïau yn y traddodiad Celtiadd, wedi eu gosod o dan themau gwahanol.





**Cyfres Gweddïau Roots**
**Gweddïau'r Flwyddyn Eglwysig A**
**Gweddïau'r Flwyddyn Eglwysig B**
**Gweddïau'r Flwyddyn Eglwysig C**
Testun: addas Trefor Lewis,
Pris: £9.99 yr un, 196tt.
Casgliad o weddïau yn dilyn y Llithiadur - cylch 3 blynedd o weddïau ar gyfer addoliad cyhoeddus





**Ei Orsedd Rasol Ef**
**Cyfrol 1 - Blwyddyn A**
**Cyfrol 1 - Blwyddyn A**
**Cyfrol 1 - Blwyddyn A**
Testun: addas Dewi Myrddin Hughes o weddïau John Birch,
Pris: £8.99 yr un, 148tt.
Casgliad o weddïau yn dilyn y Llithiadur - cylch 3 blynedd o weddïau ar gyfer addoliad cyhoeddus.




**Geiriau Cyhoeddus**
Gol: Huw John Hughes,
Pris: £11.99.
Casgliad o adnodau, dywediadau, cerddi, emynau a gweddïau ar gyfer dechrau oedfa. Yn dilyn themau Gweddïau a Myfyrdodau Cyhoeddus.




**Te Deum**
Testun: Elfed ap Nefydd Roberts,
Pris: £9.99, 212tt.
Gwasanaethau cyflawn ar gyfer cynulledifaoedd bychain, grwpiau defosiwn neu gyfarfodydd gweddi.



## Blas ar Gristnogaeth Cymru




R Tudur Jones, gol Euros Wyn Jones,
Pris: £8.99, 112tt.
Cyfrol ddifyr yn ein tywys ar daith sy'n edrych ar hanes Cristnogaeth yng Nghymru.




**66 o Wasanaethau Cynradd**
Testun: Huw John Hughes,
Pris: £7.95, 142tt, cm
Cyfrol newydd o wasanaethau Cristnogol ar gyfer plant cynradd. Addas ar gyfer ysgolion ac eglwysi.






**Dwy Law yn Erfyn**
Testun: Dwynwen Teifi,
Pris £9.95, 120tt, cm
Casgliad o wasanaethau ar gyfer plant ac ieuenctid ar gyfer y flwyddyn gyfan, gyda cerddi, sgetsus, dramau, monologau, darlleniadau a gweddïau.





## Diwrnod Newydd Arall

Testun: Huw John Hughes,
Pris: £9.99, 370 tt.
Calendr blynyddol, gyda dyfyniadau ac adnodau perthnasol ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn, gyda lluniau trawiadol.





**Llawlyfr Creu a Chynnal Eglwys Iach**
Testun: Robert Warren,
addas Catrin Roberts,
Pris: £16.99, 212tt.
Canllaw ymarferol i fywiogi eich eglwys. Addasiad Cymraeg o The Healthy Churches Handbook.




**Pregethu**
Testun: Peter Stevenson,
addas Olaf Davies,
Pris: £19.99, 274tt. cm
Cyfrol o ganllawiau ar bregethu, at ddefnydd pobl o draddodiadau eglwysig amrywiol. Addasiad Cymraeg o Preaching.



# ROOTS yn Gymraeg

**Erbyn hyn y mae elfennau o ddeunydd addoli a dysgu Roots for Churches ar gael yn Gymraeg**, a hynny i'w lawrlwytho am ddim o'r wefan i bawb sy'n tanysgrifio i'r cylchgronnau. Ar gyfer bob Sul o'r flwyddyn y mae holl weddïau ar gyfer addoliad pob oed ac addoliad adran yr oedolion ar y wefan, ynghyd â thaflen waith wythnosol ar gyfer y plant ar gael yn Gymraeg.

Mae sampler ar gael sef deunydd ar gyfer un Sul arbennig ym Medi (er y gellir ei ddefnyddio ar unrhyw Sul wrth gwrs) a copi o'r deunydd Cymraeg ar gyfer yr wythnos oddi ar y wefan. Dyma gyfle felly i arbrofi gyda'r deunydd ar gyfer oedfa arbennig.

Mae cyfle i danysgrifio i ROOTS trwy dderbyn copïau yn y post bob deufis. O danysgrifio, fe fydd y deunydd hwn ar gael yn wythnosol ar eich cyfer.

I danysgrifio ewch i wefan **www.rootsontheweb.com**




# Llan Llanast

**Messy Church yn Gymraeg!**

Mae dau adnodd Cymraeg yn y gyfres Llan Llanast bellach ar gael yn Gymraeg. Llan Llanast yw'r enw Cymraeg awdurdodedig ar gyfer cynnal gweithgaredd Messy Church.

**Cychwyn eich Llan Llanast** Pris £4.99

**Llan Llanast** Pris £7.99
Cyfeirlyfr yn cynnwys arweiniad a sesiynau ymarferol.




**Adnoddau Messy Church ar gael o www.brf.org.uk**


# Arwyr Ancora

App Beiblaidd cyffrous newydd i blant

I'w lawrlwytho am ddim
**ewch i www.arwyrancora.com**
neu chwilio amdano yn y gwahanol *app stores*.

**Bellach mae deunydd Clwb Gwyliau Arwyr Ancora ar gael sy'n cynnwys gweithgarwch ar gyfer 5 diwrnod.**

**Casglu'r Trysor**
£11.99
Cynllun clwb gwyliau cyflawn yn cynnwys gwersi, gemau, posau a gweithgareddau. Mae'n cyd-fynd ag Ap Arwyr Ancora.




**Cist Drysor - 5-7 oed**
**Storfa Drysor - 7-11 oed**
£2.50 yr un
2 lyfr lliwgar ar gyfer y plant sy'n llawn posau a gweithagreddau, sy' cyd-fynd â sesiynau clwb gwyliau Arwyr Ancora

# Ffurflen Archebu beibl.net

beibl.net

Erbyn hyn mae tri Beibl wedi eu cyhoeddi fel rhan o brosiect beibl.net. Mae fersiwn llawn o'r Beibl ar gael, fersiwn print bras, yn ogystal â Beibl lliw i blant. 365 o storïau – pob un ohonynt gyda llun lliw llawn a thestun o beibl.net. Rydym yn hapus i gynnig telerau arbennig ar niferoedd – gweler isod:




**PRISIAU SIOP**

beibl.net cyffredin **£14.99** yr un
beibl.net 365 o storïau o'r Beibl **£14.99** yr un
beibl.net print bras **£24.99** yr un

**Prisiau arbennig:**


*beibl.net a beibl.net 365*
2–5 copi: **£14** yr un
6–24 copi: **£12** yr un
25+ copi: **£10.50** yr un

*beibl.net print bras*
2 neu fwy **£20** yr un

Gellir cyfuno niferoedd o'r tri beibl oddi mewn i'r archeb er mwyn sicrhau y prisiau gostyngol.

## CANU CLOD!

**CASGLIAD O DROS 400 O EMYNAU A CHANEUON CRISTNOGOL I BLANT AC IEUENCTID MEWN DWY GYFROL.**




Cyfrol 1 a 2 ar gael **nawr!**

**Ceir rhai o'n ffefrynnau traddodiadol ond yn bennaf dyma gasgliad o ganeuon Cristnogol cyfoes a gomisiynwyd ar gyfer y gyfrol.**

Cerddoriaeth llawn **hen nodiant** gyda **cordiau gitâr**

Pris y gyfrol **£26.99** *neu* cyfle unigryw i gael **UN set am £40** yn cynnwys cludiant!

Amgaeaf siec o £.................. yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am

❑ ..... copi o Canu Clod! 1 am £26.99 yr un ❑ ..... copi o Canu Clod! 2 am £26.99 yr un

❑ ..... pecyn cyflawn o Canu Clod! 1 a 2 am £40

**Ffôn** .................................................. **Ebost** ..................................................

**Enw a chyfeiriad** ..................................................

.................................................. **Côd Post** ..................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

# Cynllun Cronfa Illtud

## CYNLLUN i gefnogi eich **ysgol** leol...
## cyfle i eglwysi lleol gynorthwyo eu hysgolion lleol




**Y mae ysgolion yn cwyno am ddiffyg cyllid.**
**Y mae prinder adnoddau Cristnogol mewn ysgolion.**
**Y mae eglwysi yn pryderu am addysg Gristnogol.**

Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth creadigol i wella'r sefyllfa!


**CYFLE I EGLWYSI GYFLWYNO RHODD O LYFRGELL GRISTNOGOL GYMRAEG I YSGOL LEOL.**

**Pris arferol y llyfrau : £150. Pris arbennig gan gynnwys cludiant : £60**

Trwy'r cynllun arbennig yma, y mae'n bosibl cyflwyno llyfrau darllen at wasanaeth eich ysgol gynradd leol.

Mae'r casgliad yn cynnwys 30 o'r llyfrau diweddaraf, lliwgar ar gyfer rhai rhwng 5–11 oed.

## CYNLLUN i roi llyfrgell adnoddau defosiynol yn eich **eglwys** leol...
## cyfle i eglwysi lleol i alluogi aelodau i arwain oedfaon




**Y mae eglwysi yn cwyno am brinder pobl i arwain oedfa.**
**Y mae prinder adnoddau'w cynorthwyo yn aml mewn eglwysi.**
**Detholiad o 20 teitl gwahanol ar gyfer oedfaon a chyrddau gweddi.**

Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth creadigol i wella'r sefyllfa!

**CYFLE I EGLWYSI OSOD LLYFRGELL O LYFRAU DEFOSIYNOL YN Y CAPEL.**

**Pris arferol y llyfrau : £150. Pris arbennig gan gynnwys cludiant : £60**

Trwy'r cynllun arbennig yma, y mae'n bosibl prynnu cyflenwad o 20 llyfr gweddi/oedfaon/myfyrdodau gwahanol ar gyfer galluogi pobl o fewn y gynulleidfa i gymryd yr awenau ac arwain oedfa ar y Sul.

Mae'r casgliad yn cynnwys 20 o lyfrau gan Cyhoeddiadau'r Gair a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd y llyfrau yn cael eu dewis genym ni.

- ☐ Amgaeaf siec o £60 am Becyn Illtud o lyfrau lliwgar ar gyfer yr ysgol leol
- ☐ Amgaeaf siec o £60 am Becyn Illtud o lyfrau defosiynol ar gyfer yr eglwys leol

Sieciau yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'.

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..............................................................................

..............................................................................

**Côd Post** .................................................... **Ffôn** ....................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH





# Cyfres o bosteri Cristnogol

Cyfres o 20 poster Cristnogol lliwgar sy'n addas i'w arddangos mewn eglwys, festri Ysgol Sul neu ystafell ddosbarth yn yr ysgol.





*Y gyfres yn cynnwys:*
- Llyfrgell o holl lyfrau'r Beibl
- Map lliwgar o Israel yng nghyfnod y Beibl
- Testun Gweddi'r Arglwydd, Y Deg Gorchymun a Salm 23
- Posteri addas ar gyfer y Nadolig a'r Pasg




# Y 4 Pwynt

www.the4points.com



Mae Y 4 Pwynt yn dract Cristnogol sydd ar gael mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys erbyn hyn y Gymraeg!




**Mae'r tract yn defnyddio pedwar symbol – calon (mae Duw'n fy ngharu) croes X (Rydw i wedi pechu), croes Crist (Bu Iesu farw drosof) a marc cwestiwn (Rhaid i mi benderfynu byw er mwyn Duw).**

Ar y wefan yn ogystal (www.the4points.com) mae llawer iawn o adnoddau di-iaith gan gynnwys breichledau, capiau, sticeri, crysau-t a hwdis. Dyma adnodd hynod effeithiol i genhadu ymysg pl



Ar y tract o dan y symbolau mae'r esboniadau isod:
MAE DUW'N FY NGHARU
RYDW I WEDI PECHU
BU IESU FARW DROSOF
RHAID I MI BENDERFYNU BYW ER MWYN DUW

# Ydach chi wedi ymweld â gwefan www.ysgolsul.com yn ddiweddar?




Dros y misoedd mae llawer o adrannau newydd wedi ychwanegu at y wefan.

## SIOP

Un datblygiad cyffrous yw ein adran Siop Ddigidol, lle mae modd prynu a lawrlwytho llawer iawn o'n cynnyrch.

Ar hyn o bryd mae dros 150 o ffilmiau Beiblaidd pum munud ar gael yno i'w lawrlwytho. Maent ar gael am 90c yr un (talu trwy Paypal neu efo cerdyn) ac yna mae modd lawrlwytho'r ffilm yn uniongyrchol i'ch cyfrifiadur neu gluniadur. Mae dros 50 o werslyfrau Ysgol Sul hefyd ar gael yn ddigidol, fel e-lyfrau pdf, sy'n golygu bod modd cadw gwerslyfr cyfan ar eich cyfrifiadur ac argraffu gwersi a thaflenni gwaith yn ôl y galw.

Mae yna gasgliad helaeth o dros 30 llyfr defosiynol megis cyfrolau o oedfaon a gweddïau ar gael hefyd fel e-lyfrau pdf, sy'n galluogi y defnyddiwr i greu gwasanaethau personol gan ddefnyddio'r deunydd hwn.

## ADNODDAU I'W LAWRLWYTHO

Yn yr adran adnoddau i'w lawrlwytho ceir adnoddau yn rhad ac am ddim, ac yma mae dros 600 o daflenni Beiblaidd yn y gyfres Amser Beibl ar gael, dewis o gyflwyniadau Powerpoint ac yn adran Banc Adnoddau mae yna ddewis o daflenni gwaith, syniadau crefft a cwis hefyd ar gael (hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd).

## PROJECTAU

Yn yr adran projectau mae gwybodaeth a manylion cynlluniau megis Llan Llanast, Agor y Llyfr, Y Pedwar Pwynt, Y Cam Nesaf, Cwrs y Beibl, Beibl Byw a beibl.net

## GWEFANNAU ERAILL

Mae gwefan yr ysgol Sul hefyd yn ceisio cyfeirio pobl at wefannau defnyddiol eraill, sy'n cynnig syniadau a chymorth ymarferol ar waith plant a ieuenctid. Ewch yno i chwilio am ba ffynonellau eraill sydd ar gael.

## GWERSLYFRAU

Yn yr adran gwerslyffrau mae gwybodaeth fanwl am bob un o'r cynlluniau sydd ar gael, gan gynnwys sampleri a rhestrau cynnwys.

## GWYBODAETH

Yn yr adran gwybodaeth cewch fanylion am y Cyngor a'i ddarpariaeth, a syniadau ymarferol ar waith yr Ysgol Sul. Mae yma bosteri ayyb i'w lawrlwytho yma hefyd.

## CYHOEDDIADAU'R GAIR

Yn adran Cyhoeddiadau'r Gair mae manylion am ein llyfrau diweddaraf, gyda linciau i wefan gwales.com er mwyn prynu ar lein. Mae nifer o gatalogau ar gael hefyd, gan gynnwys catalog Beiblau Plant, Llyfrau defosiwn i oedolion, Gwerslyfrau i Ysgolion Sul a Llyfrau defnyddiol at waith plant a ieuenctid.

**Cofiwch ymweld a gwefan Cyngor Ysgolion Sul www.ysgolsul.com yn gyson er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.**

## Beth am hoffi ein tudalen Facebook:

**/ysgolsul**
**/cyhoeddiadaurgair**

Cyngor Ysgolion Sul

CYHOEDDIADAU'R GAIR